**PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI**
**16/10/25**

**Presenoldeb:**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd Cai Larsen (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Rhys Tudur (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr:- Beca Brown, Jina Gwyrfai, Gareth Tudor Jones, Gwilym Jones, Beth Lawton, Dewi Owen, John Pughe Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Dyfrig Siencyn, Gwynfor Owen a Sian Williams.

**Aelodau Cyfetholedig:** Colette Owen (Yr Eglwys Gatholig), Sharon Roberts (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon) a Gweno Glyn Williams (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Dwyfor).

**Swyddogion yn bresennol:** Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) a Jasmine Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5 -** Cynghorydd Medwyn Hughes (Aelod Cabinet Economi a Chymuned), Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned), Dylan Griffiths (Rheolwr Gwasanaeth Datblygu Economaidd), Nia Bowden (Rheolwr Rhaglen Cefnogi Busnes).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6 -** Cynghorydd Dewi Jones (Aelod Cabinet Addysg), Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), Debbie Anne Jones (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Addysg), Siwan Llwyd Roberts (Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7 -** Cynghorydd Llio Elenid Owen (Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol a’r Gymraeg), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol), Arwel Evans (Rheolwr Caffael), Miriam Fflur Hughes (Ymgynghorydd Caffael).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 8 -** Cynghorydd Llio Elenid Owen (Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol a’r Gymraeg), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol), Catrin Love (Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Elwyn Jones, y Cynghorydd Dawne Lynne Jones a Gwilym Jones (NASUWT).

Diolchwyd i’r Cynghorydd Iwan Huws am ei waith ar y pwyllgor.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd Sharon Roberts fuddiant personol ar gyfer eitem 5, 7 a 8. Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 19 Mehefin, 2025 fel rhai cywir.

## 5. STRATEGAETH ECONOMI GWYNEDD

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned yr adroddiad, gan nodi bod yr adroddiad wedi'i lunio yn dilyn ymgynghoriad helaeth gyda nifer o fusnesau a sefydliadau. Nodwyd bod y sefyllfa economaidd bresennol yn un heriol gyda busnesau'n parhau i wynebu sawl newid a her, gan gynnwys cynnydd mewn costau, cyflymder y trawsnewid digidol a'r angen i ddatblygu sgiliau priodol yn gynaliadwy ar draws y sir.

Nodwyd bod datganiad diweddar gan Lywodraeth Cymru yn cyfeirio at bosibilrwydd o £550 miliwn o gyllid i hybu'r economi yng Nghymru, ond nad oedd eglurder hyd yma ynghylch i ble y byddai'r arian hwnnw'n cael ei neilltuo. Nodwyd bod y sefyllfa'n aneglur, gan bwysleisio bod lefel y cyllid a dderbyniwyd wedi gostwng yn sylweddol. Ymhelaethwyd y derbyniwyd oddeutu £20 miliwn ddwy flynedd yn ôl gyda £8.5 miliwn wedi ei dderbyn eleni, ac y gallai'r ffigwr hwn leihau ymhellach y flwyddyn nesaf.

Pwysleisiwyd, yn sgil hynny, bod angen strategaeth glir i amlinellu'r blaenoriaethau wrth symud ymlaen. Nodwyd, yn dilyn derbyn mewnbwn gan Aelodau'r Pwyllgor ym mis Chwefror ar y blaenoriaethau ar gyfer cynyddu ffyniant trigolion a chymunedau Gwynedd yn y dyfodol, fod drafft cychwynnol o'r strategaeth hirdymor yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor er mwyn i Aelodau gynnig mewnbwn ac adborth cyn i'r ddogfen gael ei chadarnhau.

Pwysleisiwyd bod y strategaeth hirdymor dan sylw yn gosod y cyfeiriad cyffredinol, gyda chynllun gweithredu'n eistedd oddi tano i amlinellu'r prosiectau fydd yn cyfrannu at wireddu'r strategaeth, ac y byddai'r cynllun hwnnw'n cael ei ddiweddaru'n flynyddol. Nodwyd nad strategaeth y Cyngor yn unig oedd hon, ond strategaeth ar gyfer y sir gyfan, gyda'r bwriad o barhau i weithio'n agos gyda phartneriaid i gwblhau'r ddogfen derfynol.

Eglurwyd y bwriad o sefydlu Fforwm Economi Gwynedd i gydlynu'r gwaith gyda phartneriaid o bob sector ac i adeiladu ar y profiadau cadarnhaol o weithredu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Nodwyd mai'r camau nesaf fyddai derbyn mewnbwn ychwanegol, sefydlu Fforwm Economi Gwynedd, cadarnhau cynnwys y strategaeth, a chyflwyno'r ddogfen derfynol i'r Cabinet ac yna i'r Cyngor Llawn.

Diolchwyd i'r Pwyllgor am eu 17 sylw yng nghyfarfod 13 Chwefror 2025, a nodwyd bod y rhain wedi cael eu hystyried wrth lunio'r strategaeth.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Nodwyd ei bod yn bleser gweld y gwaith yn dod i ffrwyth, a holwyd am ragor o wybodaeth am Fforwm Economi Gwynedd, yn benodol ohono ran yr aelodaeth a pha mor aml y byddai'n cyfarfod. Mewn ymateb, nodwyd mai'r bwriad yw cynnwys cynrychiolwyr o'r prif sectorau sy'n bwysig i Wynedd, megis amaethyddiaeth, twristiaeth, addysg, prifysgolion a cholegau, ynghyd â pherchnogion busnesau lleol, entrepreneuriaid ac arbenigwyr yn y maes economaidd. Pwysleisiwyd bod cynrychiolaeth y sector preifat yn elfen hanfodol o'r Fforwm er mwyn sicrhau cyngor ac arbenigedd ymarferol.

Cwestiynwyd ynghylch cyfeiriadau at ardaloedd difreintiedig Gwynedd yn y strategaeth, gan nodi nad oedd cyfeiriad penodol at feithrin twf economaidd mewn ardaloedd megis Meirionnydd a Dwyfor. Pwysleisiwyd bod angen mwy o bwyslais ar yr ardaloedd hyn o fewn y strategaeth. Mewn ymateb, nodwyd bod hwn yn bwynt teg ac y dylid tanlinellu'r elfen ddaearyddol yn gliriach o fewn y ddogfen. Eglurwyd y byddai'r cynlluniau gweithredu o dan y strategaeth yn cynnwys ystyriaeth o'r materion daearyddol, a phwysleisiwyd bod yr adran yn ymdrechu i sicrhau tegwch ar draws y sir gyfan. Er bod llai o gyllid ar gael, nodwyd mai'r bwriad yw cynnal dosbarthiad teg o'r adnoddau sydd ar gael.

Gofynnwyd am ddiweddariad ar sefyllfa Llanbedr a Thrawsfynydd. Mewn ymateb, eglurwyd bod y prosiect datblygu yn Llanbedr yn parhau i fod yn gysylltiedig â datblygiad y ffordd newydd, a bod gobaith y byddai'r gwaith yn symud ymlaen erbyn mis Mai nesaf. Yn achos Trawsfynydd, nodwyd y cyhoeddwyd yn ddiweddar buddsoddiad o £70 miliwn i'r prosiect dadgomisiynu dros y tair blynedd nesaf, gyda'r disgwyl y byddai hyn yn creu rhwng 150 a 200 o swyddi lleol. Pwysleisiwyd bod gwaith yn mynd rhagddo i gryfhau'r cyfleoedd yn yr ardal, gan gynnwys datblygu parc gwyddoniaeth ac elfennau megis canolfannau data a deallusrwydd artiffisial.

Pwysleisiwyd o ran Llanbedr bod angen rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru i glustnodi arian cyn mis Mai, gan nodi nad oedd yn deg disgwyl i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ddarparu'r cyllid. Nodwyd yr angen i barhau i bwyso dros barhad y proses dadgomisiynu safle Trawsfynydd, gan nodi'r perygl i'r broses lithro gan nad yw'r cynlluniau ariannol wedi cynyddu yn unol â chwyddiant. Mewn ymateb, nodwyd bod y pwynt hwn wedi cael ei godi gyda'r cyrff perthnasol ym Mwrdd Trosolwg Trawsfynydd.

Nodwyd pryder ynghylch diffyg siaradwyr Cymraeg mewn swyddi uwch a'r dylanwad y gallai hyn ei gael ar gyfran y gweithlu di-Gymraeg. Pwysleisiwyd yr angen i fonitro'r sefyllfa a sicrhau tegwch i siaradwyr Cymraeg o fewn gweithleoedd cyhoeddus a phreifat.

Cwestiynwyd ynghylch twf yr economi yn y dyfodol ac effaith costau ychwanegol megis y dreth yswiriant cenedlaethol ar fusnesau bach, yn enwedig yn y sector twristiaeth. Nodwyd bod nifer o fusnesau'n pryderu ynghylch y

mater hwn ac, o ganlyniad, wedi lleihau eu gweithlu. Cwestiynwyd ymhellach ynghylch pa grantiau oedd ar gael i gynorthwyo'r busnesau hyn, yn enwedig y rhai gwledig. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod diffyg eglurder ynghylch grantiau gan eu bod yn newid yn gyson, gyda Llywodraeth Cymru yn pennu'r dyraniadau o flwyddyn i flwyddyn.
- Bod y weledigaeth economaidd yn seiliedig ar "dwf at bwrpas" yn hytrach na "thwf er mwyn twf", gyda ffocws ar gynnal a gwneud y gorau o'r hyn oedd ar gael a chynorthwyo busnesau lleol i arbed costau, cynyddu incwm ac addasu i economi sero net.
- Bod y strategaeth yn cynnwys cyfleoedd newydd oedd yn addas ac yn briodol i Wynedd fel ardal, gan geisio manteisio ar gryfderau lleol ac elfennau daearyddol megis safleoedd fel Trawsfynydd.
- Byddai'r Cynlluniau Gweithredu Blynyddol yn nodi'r camau ymarferol a'r prosiectau lleol fyddai'n cyfrannu at y nodau hyn, gan ddibynnu'n sylweddol ar gyllid allanol a chyfraniad y sector preifat.
- Bod angen gwarchod y sefyllfa bresennol wrth edrych i'r dyfodol.

Cwestiynwyd ble y rhagwelwyd twf economaidd yn y blynyddoedd nesaf, gan bwysleisio'r angen i greu swyddi o ansawdd da er mwyn cadw pobl ifanc yn y sir. Mewn ymateb, nodwyd bod mynediad i'r grid trydan yn hollbwysig, gyda datblygiadau megis canolfannau data, datblygiadau amaethyddol newydd yng Nglynllifon a phrosiectau ynni glân ar y gweill. Nodwyd, er bod y sefyllfa ariannol yn heriol, y gobaith yw y daw ffyniant a thwf gyda'r dechnoleg newydd. Pwysleisiwyd y byddai'r rhaglen o gynlluniau yn cael eu cynnwys yn y cynlluniau gweithredu blynyddol. Nodwyd y bwriad i'w hadolygu bob blwyddyn er mwyn adnabod y prosiectau perthnasol wrth i amgylchiadau a diddordeb y sector breifat ddatblygu.

Ynghylch ceisiadau cynllunio, mynegwyd ymwybyddiaeth o fusnesau gyda'r bwriad o symud i Wynedd i ddatblygu eu gweithgarwch ond ddim wedi derbyn caniatâd cynllunio. Cwestiynwyd faint o rwystredigaeth oedd hyn yn ei greu i ddatblygu economi Gwynedd, ac a fyddai cynrychiolaeth o'r maes cynllunio yn rhan o Fforwm Economi Gwynedd. Mewn ymateb, nodwyd bod cynllunio'n faes hanfodol i lwyddiant economaidd ac yn cael ei grybwyll yn y strategaeth. Nodwyd ymhellach y byddai cynrychiolaeth o'r maes cynllunio yn rhan o Fforwm Economi Gwynedd.

Nodwyd pryder ynghylch natur feddal y strategaeth o ran defnydd iaith, gyda chyfeiriad at eiriau megis 'cefnogi' ac 'hyrwyddo', yn ogystal â'r hwyrder wrth dderbyn y ddogfen ddrafft ar gyfer 2025-26. Mewn ymateb, nodwyd bod dogfennau strategol yn ddogfennau cyfeiriadol ac felly'n tueddu i fod yn feddal eu naws, a bod y cynlluniau gweithredu yn cynnwys y camau pendant. Nodwyd bod hwyrder yn derbyn setliad cyllid eleni wedi arwain at oedi wrth lunio'r gwaith, ac y bu'n rhaid gweithredu o fewn cyfnod ariannol byr.

Mynegwyd pryder ynglŷn â'r diffyg sicrwydd ynghylch dyfodol grantiau, gan gyfeirio at y rhaglenni a ddaw i ben ym mis Mawrth 2026. Mewn ymateb, nodwyd bod sawl rhaglen lwyddiannus wedi bod ar waith dros y tair blynedd ddiwethaf, wedi'u hariannu'n llawn gan grantiau. Nodwyd bod ansicrwydd

ynghylch cyllid parhaus yn creu ansicrwydd i staff y Cyngor ynglŷn â'u cytundebau gwaith. Pwysleisiwyd bod dros hanner gweithlu'r adran ar gontractau tymor byr oherwydd dibyniaeth ar grantiau, gan greu her o ran cadw staff profiadol. Nodwyd bod yr adran yn pryderu ynglŷn â hyn a blaenoriaethir ymdrechu i dderbyn y cyllid grant yma ar gyfer flwyddyn nesaf.

Gofynnwyd am fwy o wybodaeth ynglŷn â chynlluniau economi sydd yn ymwneud â'r iaith Gymraeg ac ymdrechion i ddenu pobl yn ôl i Wynedd. Mewn ymateb, nodwyd bod yr adran wedi bod yn gweithio ar y rhaglen Arfor dros y tair blynedd diwethaf gyda chyllideb o £11 miliwn, ond eleni dim ond arian pontio a dderbyniwyd. Pwysleisiwyd, er hyn, y bydd y gwersi sydd wedi'u dysgu a'r ymchwil a wnaed dros y tair blynedd diwethaf, megis beth sy'n bwysig i bobl ifanc a pha amodau ac amgylchiadau fyddai'n eu denu yn ôl, yn parhau i gael eu defnyddio. Nodwyd bod y mater yn flaenoriaeth o fewn y strategaeth ac felly'n cael ei flaenoriaethu mewn ceisiadau am grantiau er mwyn parhau i adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud.

Gofynnwyd am fwy o wybodaeth ynghylch cydweithio rhwng yr Adran Economi a Chymuned a'r Adran Amgylchedd i sicrhau bod y strategaeth yn cael ystyriaeth lawn wrth i'r Cynllun Datblygu Lleol newydd gael ei ddatblygu. Mewn ymateb, nodwyd bod cysylltiad clir rhwng y strategaeth a'r cynllun datblygu, ac y byddai'r ddwy strategaeth yn symud i'r un cyfeiriad. Nodwyd bod perthynas waith agos yn bodoli ar gyfer prosiectau mawr, a bod yr Adran yn amlygu pwysigrwydd y cynlluniau i'r economi leol ac yn cynnig eu sylwadau wrth i'r prosesau cynllunio symud ymlaen.

Holwyd am ragor o fanylion ynghylch gwerthusiad y rhaglen Arfor. Mewn ymateb, nodwyd bod y gwerthusiad wedi'i gomisiynu ac wedi'i rannu gyda'r pedair sir, a'i fod yn dangos pa gynlluniau oedd wedi llwyddo orau, gan helpu i adnabod wrth symud ymlaen pa fath o ymyraethau sy'n gwneud y mwyaf o wahaniaeth. Nodwyd mai'r bwriad oedd cyhoeddi'r adroddiad erbyn Rhagfyr 2025, ar ôl cytuno arno gyda Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau y byddai'r canfyddiadau'n llywio'r gwaith i'r dyfodol.

Tynnwyd sylw at y diffyg trafodaeth rhwng yr Adran Amgylchedd a'r Adran Economi a Chymuned yng nghyswllt ceisiadau cynllunio amrywiol. Nodwyd yr angen am well cyfathrebu rhwng yr Adrannau yn enwedig o ran datblygiadau llai a datblygiadau mewn ardaloedd gwledig. Mewn ymateb, nodwyd bod y berthynas waith ar brosiectau mawr yn gadarn, ond y byddai'r adran yn trafod gyda'r Adran Amgylchedd sut i ymestyn hyn i brosiectau llai.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd cefnogi'r gwaith sy'n digwydd yn Llanbedr mewn perthynas â datblygiadau dronau, gan nodi bod y datblygiadau hyn o fudd i'r maes amaethyddiaeth. Mewn ymateb, pwysleisiwyd nad oedd unrhyw waith milwrol ar y safle ac y byddai'r Cyngor yn parhau i gefnogi'r datblygiad.

Nodwyd sylw bod cynhyrchu ynni glân a chynlluniau hydro ddim yn ddiwydiant gyda photensial ar gyfer twf ar hyn o bryd, gan fod y prisiau a gynigir am y trydan hwn gan y Llywodraeth wedi gostwng yn sylweddol.

Mynegwyd barn bod y cynllun cyflawni yn gorbwysleisio ardal Arfon. Nodwyd bod angen rhoi mwy o bwyslais ar ddatblygu sgiliau sylfaenol megis gwaith saer coed, plymwr a thrydanwr o fewn y diwydiant adeiladu wrth lunio cynlluniau hyfforddi.

Nodwyd bod angen adrodd yn fwy rheolaidd ar y swyddi a grëwyd neu a ddiogelwyd drwy gynlluniau'r adran, gan gynnwys gwybodaeth ar lefel wardiau, er mwyn dangos effaith y buddsoddiad ar bobl Gwynedd.

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn y strategaeth gan nodi'r sylwadau.**
2. **Mynegi pryder ynghylch argaeledd grantiau i ardaloedd difreintiedig fel Gwynedd, a mynegi'r gobaith y bydd cyfartaledd a thegwch o fewn y Sir o ran dosbarthiad adnoddau a chefnogaeth.**
3. **Nodi pwysigrwydd bod yr Adran Economi a Chymuned yn cydweithio gyda'r Adran Amgylchedd er mwyn sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn cyfarch yr angen i ddenu swyddi a busnesau i'r Sir. Yn yr un modd, cydweithio gyda Pharc Cenedlaethol Eryri.**
4. **Awgrymu bod strwythur clir yn cael ei roi ar waith i adolygu'r hyn a gyflawnwyd ar ddiwedd blwyddyn yn erbyn y cynllun cyflawni.**

**6. CYFUNDREFN ADDYSG DROCHI**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Addysg. Nodwyd bod y Gyfundrefn Addysg Drochi wedi bod yn destun trafodaeth ar sawl achlysur blaenorol gan y Pwyllgor, a bod croeso i'r diddordeb parhaus yn y maes gan ei fod yn un hollbwysig i'r sir. Pwysleisiwyd bod gan Wynedd gyfle unigryw fel sir i sicrhau bod plant sy'n cyrraedd yn hwyr i'r ardal yn cael y cyfle i ddatblygu sgil hanfodol, sef yr iaith Gymraeg. Nodwyd bod yr iaith Gymraeg yn bwysig i bawb yng Ngwynedd ac yn agor drysau o ran cyfleoedd cyflogaeth a diwylliant. Pwysleisiwyd bod hyn yn hanfodol, mewn sir lle mae'r mwyafrif yn siarad Cymraeg, bod pob plentyn yn gallu manteisio'n llawn ar bopeth sydd ar gael iddynt.

Nodwyd y cyhoeddwyd dau adroddiad ers i'r maes gael ei drafod diwethaf, sef adroddiad gan Brifysgol Bangor ac adroddiad gan Estyn. Pwysleisiwyd nad oedd y system drochi flaenorol wedi cael ei harolygu gan Estyn, ond erbyn hyn bod y system wedi'i chofrestru fel endid addysgol ac felly'n derbyn arolygiad Estyn llawn fel yr ysgolion. Nodwyd bod yr adroddiad gan Estyn yn gadarnhaol iawn, gan gydnabod bod gan Wynedd system drochi arloesol.

Mynegwyd gwerthfawrogiad i staff yr adran am eu gwaith caled, ac yn arbennig i Rhys Meredydd Glyn, cyn-Bennaeth y Gyfundrefn Addysg Drochi.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Cwestiynwyd pa mor fanwl oedd arolygiad Estyn o'r Canolfannau Trochi. Nodwyd bod adroddiad Prifysgol Bangor yn gwrth-ddweud adroddiad Estyn ac wedi gwneud argymhellion penodol, megis ailystyried y model pedwar diwrnod

presennol a dychwelyd at fodel pum diwrnod, gan nodi bod y model pedwar diwrnod yn cynnwys diffygion megis y cyswllt ar y pumed diwrnod rhwng y ganolfan drochi a'r athrawon yn yr ysgolion. Cwestiynwyd a fyddai'r Adran yn barod i ystyried argymhellion Prifysgol Bangor.

Mewn ymateb, nodwyd bod arolwg Estyn wedi cynnwys gwaith maes helaeth o gymharu ag arolwg Prifysgol Bangor, gyda thri arolygydd dros dri diwrnod ym mhob un o'r chwe chanolfan drochi ac mewn ysgolion, gan gynnwys cyfweliadau gyda disgyblion a staff. Nodwyd bod adroddiad Prifysgol Bangor wedi defnyddio meini prawf gwahanol i Estyn, gan gynnwys dulliau a arferir eu defnyddio wrth asesu trochi oedolion.

Pwysleisiwyd bod y sylwadau yn y ddau adroddiad yn ddilys ac y derbyniwyd yr argymhellion gan y ddau sefydliad. Ymhelaethwyd bod gwaith eisoes ar y gweill i ymateb i nifer o'r argymhellion, gyda staff y canolfannau bellach yn dechrau gweithio ochr yn ochr â disgyblion yn y dosbarth, yn hytrach na'u tynnu allan o'r dosbarth fel dan yr hen drefn. Nodwyd ymhellach bod adnoddau ychwanegol yn cael eu cynnig er mwyn ymateb i'r argymhellion, a bod safle wê yn cael ei ddatblygu i roi ciplun o'r hyn sy'n cael ei gyflawni o fewn y canolfannau trochi.

Nodwyd bod yr argymhellion ynglŷn â nifer y dyddiau yn y canolfannau trochi wedi'u pwyso a'u mesur yn llawn gan yr Adran, gyda thabl i'w weld yn yr adroddiad yn cymharu manteision ac anfanteision y pedwar model sydd ar gael. Ystyriwyd bob model yn fanwl cyn penderfynu cadw'r trefniant presennol am y tro, gan fod penaethiaid wedi gofyn am gysondeb.

Mynegwyd pryder gan aelod nad oedd pob pennaeth ysgol yn ymwybodol o'r sefyllfa ar lawr gwlad.

Tynnwyd sylw at yr anawsterau a amlygwyd o fewn yr adroddiadau o ran strwythur y gwersi ar gyfer y plant sy'n dychwelyd o'r canolfannau trochi i'r ysgolion, a'r angen i ddychwelyd at y model pum diwrnod i fynd i'r afael â hyn. Nodwyd bod adroddiad Estyn yn un arwynebol, heb lawer o fanylder na thystiolaeth i'w gefnogi. Nodwyd ymhellach bod Estyn wedi arolygu nifer o ganolfannau trochi yng Nghymru sydd newydd gychwyn ar eu taith, ac felly bod y canmoliaeth o ganolfannau Gwynedd yn ddealladwy.

Nodwyd bod adroddiad Prifysgol Bangor yn adroddiad da, gyda mwy o fanylder, tystiolaeth a sylwadau gan athrawon prif lif, athrawon trochi a disgyblion. Nodwyd bod nifer o argymhellion a chasgliadau wedi deillio o'r adroddiad, ac mai un o'r prif negeseuon oedd bod angen mwy o oriau trochi ar blant. Nodwyd o fewn yr adroddiad fod sylwadau gan athrawon trochi yn dangos nad oes cyswllt cyson rhwng yr ysgolion a'r canolfannau, a bod athrawon yn y prif lif yn tueddu i ddod yn fwy cyffyrddus â defnyddio'r Saesneg.

Nodwyd bod model pum diwrnod o fewn y canolfannau trochi yn cynnig strwythur cliriach o ran addysg i'r plant, ond nad oes monitro na dilyniant digonol i hyn o fewn y prif lif, gan nad oes digon o athrawon trochi ar gael i sicrhau hynny. Pwysleisiwyd yr angen i Lywodraeth Cymru ddarparu mwy o

gyllid i gynnal y system drochi, gan nad oedd yn deg i ysgolion orfod cyfrannu at ariannu'r ddarpariaeth.

Mewn ymateb, nodwyd bod y pumed diwrnod o fewn yr ysgol o fantais gan ei fod yn galluogi cyfathrebu gwell rhwng y canolfannau a'r ysgolion prif lif. Nodwyd bod lles disgyblion yn parhau'n ystyriaeth ganolog i'r Adran, yn ogystal ag addysgu, a bod y pumed diwrnod yn ôl yn yr ysgol wedi'i nodi fel rhywbeth llesol i'r plant. Pwysleisiwyd bod y penderfyniad presennol yn adlewyrchu'r hyn sydd orau i'r plant ac i'r ysgolion, yn ogystal â chais y penaethiaid am gysondeb, nid arian oedd y prif ffactor wrth ddod i'r penderfyniad. Cydnabuwyd bod lle i wella o ran cyfathrebu rhwng y canolfannau a'r ysgolion, a bod cynlluniau wedi'u llunio i unioni hyn.

Pwysleisiwyd bod y ddau adroddiad yn bwysig ac yn sefyll ar eu seiliau eu hunain, a bod gwersi i'w dysgu o'r ddau. Mynegwyd barn bod canfyddiadau adroddiad Prifysgol Bangor yn deillio o'r hyn sy'n digwydd ar y pumed diwrnod, sef y dydd Gwener, pan fo'r disgyblion yn ôl yn yr ysgol. Ymhelaethwyd bod cyd-destun yr arolygiad, yn enwedig amser y flwyddyn pan gynhaliwyd y gwaith, yn debygol o fod wedi dylanwadu i ryw raddau ar yr hyn a welwyd ar y dydd Gwener. Nodwyd nad yw dydd Gwener o reidrwydd yn ddiwrnod addas i blant o'r canolfannau trochi ddychwelyd i'r ysgol.

Eglurwyd bod y sefyllfa ariannol yn heriol, ond bod y Cyngor wedi derbyn grant sylweddol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y ddarpariaeth drochi ac wedi defnyddio pob dull posibl i warchod ysgolion rhag gorfod ariannu'r ddarpariaeth eu hunain.

Nododd aelod y sylwadau canlynol:-

- Bod Estyn wedi camarwain y Pwyllgor hwn unwaith eisoes ynglŷn â'r mater o les a diogelwch plant, ac felly mynegwyd barn nad oedd adroddiad Estyn yn ddibynadwy.
- Bod casgliad adroddiad Prifysgol Bangor bod ysgolion prif lif yn ei chael yn anodd cefnogi disgyblion i ailintegreiddio'n llwyddiannus ar ddydd Gwener, a bod hyn wedi lleihau effeithlonrwydd y broses drochi yn un cadarn.
- Bod casgliad Prifysgol Bangor yn nodi bod dychwelyd i'r ysgol brif ffrwd ar y dydd Gwener yn cael effaith negyddol ar les y disgyblion o ran cysondeb.
- Mai dim ond £1 miliwn oedd yn cael ei wario ar y system drochi, a bod angen lobïo Llywodraeth Cymru am fwy o gyllid.

Mynegwyd barn bod yr adroddiad yn cynnwys tuedd, gan ddiystyru canfyddiadau adroddiad Prifysgol Bangor.

Mynegwyd pryder ynghylch diffyg beirniadaeth yn adroddiad Estyn, gan bwysleisio bod adroddiad Prifysgol Bangor yn cynnig darlun mwy cytbwys ac yn tynnu sylw at ddiffyg strategaethau, cyswllt a dealltwriaeth gan athrawon. Pwysleisiwyd nad oedd newid y model o ddydd Gwener i ddydd Llun yn yr ysgol yn mynd i fod yn ddatrysiad i'r broblem hon. Awgrymwyd bod angen

edrych yn benodol ar les disgyblion wrth benderfynu ar y trefniant gorau, gan fod tystiolaeth wedi dangos bod disgyblion yn teimlo'n fwy hyderus yn yr amgylchedd trochi nag wrth ddychwelyd i'r ysgol brif ffrwd.

Pwysleisiwyd yr angen i ystyried cynyddu'r oriau trochi a rhoi mwy o bwyslais ar y broses o integreiddio disgyblion yn ôl i'w hysgolion, gan sicrhau strategaethau a hyfforddiant priodol i staff. Nodwyd bod diffyg amser i athrawon weithredu'r strategaethau, a bod angen ystyried dychwelyd at system o bum diwrnod yr wythnos a oedd eisoes wedi profi'n llwyddiannus.

Mynegwyd barn nad oedd y Siarter Iaith wedi profi'n llwyddiannus, gyda'r Saesneg yn cael ei defnyddio fel iaith anffurfiol o fewn ysgolion, ac y dylid ei hadolygu a'i chraffu fel mater o frys gan y Pwyllgor.

Mewn ymateb, nodwyd y canlynol:-

- Bod gwaith ar y gweill i ail-lansio Siarter Iaith Gwynedd gyda brandio newydd.
- Bod unrhyw arian ychwanegol gan y Llywodraeth i'w groesawu.
- Bod yr Adran eisoes wedi defnyddio pob adnodd sydd ar gael i gynnal y ddarpariaeth ac i ddiogelu ysgolion rhag costau ychwanegol, ond bod pwysau ariannol ehangach ar draws y gwasanaethau addysg.
- Ei fod yn bwysig i barhau i ddathlu llwyddiannau'r canolfannau trochi ac i gydnabod y gwaith caled sy'n digwydd yn ddyddiol gan athrawon a staff ledled y sir.
- Bod penaethiaid uwchradd wedi codi pryderon fod cyfathrebu yn parhau'n heriol.
- Bod ysgolion yn cael eu hannog i benodi mentor iaith i weithredu fel cyswllt rhwng y ganolfan drochi a'r ysgol, er mwyn sicrhau dilyniant ieithyddol. Nodwyd bod y rôl hon yn hanfodol i gynnal y cyswllt rhwng disgyblion a'r staff trochi ar ôl y cyfnod yn y ganolfan.
- Bod cyfnod trochi ddim yn dod i ben ar ôl 10 wythnos, ac y bwriedir meithrin perthynas ag ysgolion prif lif i rannu arbenigedd trochi. Nodwyd ymhellach bod angen i'r hyfforddiant ar egwyddorion trochi gael ei lywio gan y prifysgolion, er mwyn iddo fod yn rhan o hyfforddiant pob athro.

Cwestiynwyd ynghylch natur yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda'r penaethiaid. Gofynnwyd a roddwyd cyfle i'r penaethiaid ystyried y gwerthusiad cyn mynegi barn ar y modelau newydd. Mewn ymateb, nodwyd bod yr holl benaethiaid cynradd ac uwchradd wedi derbyn copi o'r pedwar model a'r wybodaeth berthnasol cyn mynegi barn.

Nodwyd bod achosion wedi'u cofnodi lle nad oedd athrawon yn cyrraedd yr ysgolion prif lif ar amser ar y dydd Gwener, gan olygu bod plant yn gorfod aros am gyfnodau hir. Mynegwyd pryder bod cyfnodau hir o waith ar-lein yn gallu arwain at unigrwydd ymhlith y disgyblion. Pwysleisiwyd felly nad yw cael plant yn ôl ar y pumed diwrnod yn cyflawni ei bwrpas o'u cadw mewn cyswllt â'r ysgol a'u cyd-ddisgyblion.

Pryderwyd ynghylch effaith y pumed diwrnod ar iaith gymdeithasol yr ysgolion, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Nodwyd y gall hyn effeithio ar natur ieithyddol yr ysgol gyfan ac ar y diwylliant Cymraeg ar yr iard ac yn y dosbarth. Awgrymwyd y byddai'n werth derbyn barn ysgolion sydd eisoes wedi profi'r trefniant er mwyn cael darlun mwy cyflawn o'r sefyllfa.

Cwestiynwyd ynghylch achosion lle nad oedd rhieni wedi dewis anfon eu plant i'r canolfannau trochi. Mewn ymateb, nodwyd bod rhesymau megis yr angen i setlo mewn cartref newydd yn gyffredin, ond bod yr Adran yn ymestyn y gwahoddiad i gyfnodau yn y dyfodol ac yn parhau i wahodd a darbwyllo rhieni i fynychu drwy ymweliadau personol â'r canolfannau. Pwysleisiwyd bod achosion o wrthod y gwahoddiad i fynychu'r canolfannau trochi yn brin iawn.

Cwestiynwyd sut mae plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu cefnogi gan y canolfannau trochi. Mewn ymateb, nodwyd bod trefniadau cadarn ar waith i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion emosiynol. Eglurwyd bod cynlluniau datblygu unigol yn cael eu trosglwyddo i'r canolfannau a bod y staff yn derbyn hyfforddiant ar egwyddorion ysgolion magwraeth, ymwybyddiaeth o drawma ac ELSA (Cymhorthyddion Llythrennedd Emosiynol).

Pwysleisiwyd pwysigrwydd hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol yn yr ysgolion prif lif, gan bwysleisio'r angen i greu diwylliant lle gall disgyblion ddefnyddio'r iaith yn naturiol ar yr iard ac yn y gymuned. Mewn ymateb, nodwyd bod dau swyddog o fewn y Cyngor yn gweithio ar ddiwygio'r Siarter Iaith a bod cais ariannol wedi'i gyflwyno er mwyn ehangu'r rolau hyn. Nodwyd ymhellach bod swyddi ar gael o fewn ysgolion ym mhob dalgylch i athrawon ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol i weithredu'r Siarter Iaith ac i drefnu un digwyddiad blynyddol yn eu dalgylch.

Nodwyd bod model arall wedi'i awgrymu ynghylch cadw'r pumed diwrnod o fewn yr ysgol ond ymestyn y cyfnod o fewn y canolfannau trochi o 10 wythnos i 12. Ymhelaethwyd ei bod yn amhosibl penderfynu pa mor ymarferol yw'r model hwn ar hyn o bryd, ond ei fod yn rhywbeth i'w ystyried ymhellach yn y dyfodol.

Mynegwyd diolch gan aelod i staff y gwasanaeth trochi, gan eu llongyfarch ar eu gwaith rhagorol a'u canmol am effeithlonrwydd y gwasanaeth. Diolchwyd hefyd i holl athrawon y sir am eu hymdrechion arwrol i drochi disgyblion o ddydd i ddydd yn y dosbarth.

Cynigwyd i wrthod yr adroddiad oherwydd bod yna duedd yng nghloriannu'r adroddiadau a dderbyniwyd gan Brifysgol Bangor ac Estyn; argymell bod yr Aelod Cabinet Addysg yn lobïo Llywodraeth Cymru am arian ychwanegol i gyllido'r ddarpariaeth a diolch i staff y canolfannau trochi am eu gwaith.

Nododd y Cynghorydd Rhys Tudur ei wrthwynebiad i dderbyn yr adroddiad. Ymhelaethodd nad oedd ystyriaeth ddigonol wedi ei roi i fodelau o fwy o gyfnod yn y canolfannau trochi; bod angen edrych ar fodelau sydd angen cyllid helaeth e.e. bod disgyblion yn mynd yn ôl i ganolfan drochi unwaith yr wythnos ar ôl y cyfnod 10 wythnos; a ni ystyriwyd effaith disgyblion yn dychwelyd i'r ysgolion o'r

canolfannau am ddiwrnod yr wythnos ar arferion iaith disgyblion yn ysgolion prif lif.

Eiliwyd y cynnig. Pleidleisiwyd ar y cynnig ac fe ddisgynnodd ar bleidlais fwrw'r Cadeirydd.

Cafwyd trafodaeth yng nghyswllt derbyn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**
2. **Gofyn i'r Aelod Cabinet Addysg i:**
    - **lobïo Llywodraeth Cymru ymhellach am adnoddau ariannol ychwanegol.**
    - **roi ystyriaeth bellach i'r opsiwn o ddychwelyd at bum diwrnod a/neu ystyried hyd y cyfnod yn y canolfannau iaith, gan roi ystyriaeth i les y disgyblion.**
    - **ymgynghori ymhellach â rhanddeiliaid a sicrhau hyblygrwydd o ran y ddarpariaeth wrth symud ymlaen.**
3. **Bod y Pwyllgor Craffu yn estyn diolch i bawb sy'n ymwneud â throchi, yn y canolfannau iaith ac o fewn yr ysgolion prif lif.**

**7. STRATEGAETH CAFFAEL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol, Cyfreithiol a'r Gymraeg. Eglurwyd bod deddfwriaeth newydd ym maes caffael wedi dod i rym ym mis Chwefror eleni. Nodwyd bod yr adroddiad yn amlinellu ymateb y Cyngor i'r Ddeddf, ynghyd â'r strategaeth ei hun a chanlyniadau defnyddio'r fethodoleg gwerth cymdeithasol wrth werthuso contractau.

Pwysleisiwyd bod caffael yn y sector cyhoeddus yn ddarostyngedig i fframwaith cyfreithiol er mwyn sicrhau cystadleuaeth deg ac agored, gwerth am arian, ac i gydymffurfio â rhwymedigaethau cenedlaethol a rhyngwladol. Nodwyd bod y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus 2023 yn debygol o ddod i rym y flwyddyn nesaf, a bod gwaith paratoi ar y gweill i ymateb i'r newidiadau hyn.

Eglurwyd bod y Cyngor yn gwario tua £200 miliwn y flwyddyn ar gaffael, ac felly bod angen sicrhau'r gwerth gorau o ran pris, ansawdd a buddion cymdeithasol, gan gynnwys cyfraniad at ddatgarboneiddio. Nodwyd bod y strategaeth yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer cyflawni'r amcanion hyn ac yn cynnwys saith maes blaenoriaeth: buddion lleol, carbon sero, gwerth am arian, gwerth cymdeithasol, technoleg, trefniadau llywodraethu a'r Gymraeg.

Atgoffwyd bod y fethodoleg werthuso gwerth cymdeithasol yn adlewyrchu saith nod y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Gymraeg, ac y bydd y Cyngor yn peilota system newydd i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i Wynedd, megis creu cyfleoedd cyflogaeth i drigolion lleol, gwariant yn y gadwyn gyflenwi leol, a chyfraniadau ariannol i elusennau a chlybiau cymunedol. Nodwyd bod

cwmnïau eisoes wedi cynnig buddion cymdeithasol o dros £4 miliwn ers cyflwyno’r dull newydd.

Eglurwyd bod y camau nesaf wedi’u hamlinellu yn yr adroddiad, gyda’r bwriad o gyflwyno’r strategaeth i’r Cabinet ym mis Tachwedd. Pwysleisiwyd bod y Cyngor yn arloesi yn y maes gwerth cymdeithasol ac y bydd y strategaeth hon yn sail i’r gwaith caffael dros y blynyddoedd nesaf.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Cwestiynwyd ynghylch y prif heriau sy’n wynebu’r Cyngor wrth weithredu’r Strategaeth, yn enwedig o ran cyrraedd y targed sero net a chadw’r buddion yn lleol. Mewn ymateb, nodwyd bod heriau ar draws sawl sector, gan gynnwys yr amgylchedd, iaith Gymraeg a’r elfennau cymdeithasol, a bod y newid yn y ddeddfwriaeth a’r angen i ddeall y trefniadau newydd yn peri’r prif heriau ar hyn o bryd.

Cwestiynwyd ynghylch y gost ychwanegol o weithredu polisïau datgarboneiddio, megis prynu cerbydau trydan yn lle cerbydau disel, a pha effaith ariannol oedd hyn yn ei gael ar y Cyngor. Mewn ymateb, nodwyd mai’r brif her oedd cyfrifo’r effaith amgylcheddol wrth gymharu hen gontract gydag un newydd, a bod y gwaith hwnnw’n parhau ar lefel genedlaethol. Nodwyd nad oes dull soffistigedig ar hyn o bryd i fesur carbon yn fanwl, ond bod y gobaith yn parhau y byddai’r defnydd o ynni’n lleihau dros amser ac y byddai hynny’n arwain at ostyngiad yn y costau. Cytunwyd i wneud gwaith ymchwil pellach i ddadansoddi’r gost ariannol ychwanegol o weithredu’r targed sero net.

Mynegwyd barn gan aelod bod costau diffyg datgarboneiddio yn y dyfodol yn debygol o fod yn uwch na’r gost o gyrraedd y nod sero net. Cwestiynwyd faint o waith cydweithio sydd wedi’i wneud gyda’r Adran Economi a Chymuned a faint o gymorth sy’n cael ei roi i gwmnïau bach o fewn y Strategaeth. Mewn ymateb, nodwyd bod yr Adran Economi a Chymuned yn darparu cymorth drwy grantiau ac yn helpu busnesau yn gyffredinol. Nodwyd hefyd bod y Gwasanaeth Caffael yn cynnig cymorth ac yn darparu gwybodaeth ymlaen llaw i fusnesau ynghylch cyfleoedd tendro, gyda’r gallu i gyfeirio cwmnïau at Busnes Cymru sy’n cynnig cymorth annibynnol. Pwysleisiwyd bod y Cyngor yn ceisio osgoi defnyddio fframweithiau cenedlaethol lle bo modd, er mwyn sicrhau rhagor o gyfleoedd i gwmnïau lleol gystadlu.

Cwestiynwyd ynghylch y trefniadau monitro presennol a’r camau i’w datblygu ymhellach. Mewn ymateb, nodwyd bod rheoli contractau ar hyn o bryd yn digwydd yn bennaf o fewn y gwasanaethau unigol, ac mai’r bwriad yw cryfhau’r trefniadau hynny drwy gyflwyno arferion gorau a sicrhau gwerth llawn o gontractau. Nodwyd bod angen gwella’r gwaith o fonitro gwerth cymdeithasol, casglu gwybodaeth am garbon ac adrodd yn gyhoeddus ar ganlyniadau’r tendrau a pherfformiad contractau mawr.

Cwestiynwyd ynghylch yr hyn sy’n newydd yn y Strategaeth hon o’i chymharu â’r un flaenorol. Holwyd os oedd y ffaith ein bod yn mesur gwerth cymdeithasol yn wahanol i awdurdodau eraill ac yn mynd y tu hwnt i ofynion deddfwriaeth.

Mewn ymateb, nodwyd bod yr elfen o fesur gwerth cymdeithasol, y pwyslais ar gadw’r budd yn lleol, yr effaith o gaffael ar sero net, gwerth am arian, gwneud y defnydd gorau o dechnoleg, edrych ar y trefniadau llywodraethu, a hyrwyddo’r Gymraeg yn agweddau ychwanegol nad oeddent wedi’u cynnwys mewn strategaethau blaenorol. Ymhelaethwyd bod sawl un o’r elfennau hyn wedi bod yn flaenoriaeth yn y gorffennol, ond heb gael eu dogfennu o fewn strategaeth. Nodwyd bod y pwyslais ar werth cymdeithasol yng Ngwynedd yn uwch nag mewn nifer o awdurdodau eraill. Pwysleisiwyd bod y strategaeth hon yn adlewyrchu gofynion y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus, ac yn gosod sylfeini ar gyfer adrodd yn flynyddol ar y cynnydd.

Cwestiynwyd a oedd technoleg a deallusrwydd artiffisial wedi arwain at arbedion i’r Cyngor hyd yma. Mewn ymateb, nodwyd bod defnydd o dechnoleg deallusrwydd artiffisial eisoes yn digwydd, ond nad oedd manylion yr arbedion ariannol ar gael ar hyn o bryd. Nodwyd bod y maes hwn yn datblygu fel rhan o’r Cynllun Digidol, gyda threfniadau llywodraethu cadarn yn cael eu sefydlu.

Pwysleisiwyd y dymuniad i weld y Gymraeg yn cael ei thrin fel ffactor ymarferol ac ystyrlon o bwys wrth gontractio, yn hytrach na dim ond elfen hyrwyddo symbolaidd. Mewn ymateb, nodwyd bod barn gyfreithiol wedi’i derbyn ar y mater hwn a’i rannu gyda’r Aelod, gan nodi’r angen i weithredu o fewn y gyfraith bresennol. Nodwyd bod gwaith pellach ar y gweill i archwilio cyfleoedd newydd i gryfhau’r defnydd o’r Gymraeg drwy’r cynllun gweithredu manwl.

Cwestiynwyd ynghylch yr amserlen ar gyfer llunio a gweithredu’r cynllun gweithredu. Mewn ymateb, nodwyd bod gwaith eisoes ar y gweill yn y cefndir, ond y byddai’r amserlen yn dibynnu ar gapasiti ac adnoddau’r gwasanaeth. Nodwyd mai strategaeth hirdymor yw hon, gyda’r gweithredoedd i’w blaenoriaethu dros sawl blwyddyn.

Cwestiynwyd beth fydd yn cael ei ddiweddaru o fewn y Polisi Caffael a phryd y bydd hyn yn digwydd. Mewn ymateb, nodwyd y bydd y Polisi yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu gofynion y ddeddfwriaeth. Cadarnhawyd bod fersiwn ddrafft o’r Polisi eisoes wedi’i baratoi, a bod angen cynnal ymgynghoriad mewnol arno cyn iddo gael ei fabwysiadu.

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi’r sylwadau.**
2. **Gofyn i’r Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol, Cyfreithiol a’r Gymraeg sicrhau bod popeth posibl, o fewn y cyfyngiadau, yn cael ei wneud i gadw’r budd yn lleol, hybu cwmnïau bach, creu gwerth cymdeithasol ac i gefnogi’r Gymraeg.**

## 8. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET GWASANAETHAU CORFFORAETHOL A CHYFREITHIOL A’R GYMRAEG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol, Cyfreithiol a’r Gymraeg, gan egluro bod yr adroddiad yn cyfeirio at y cynnydd a wnaed yn erbyn addewidion Cynllun y Cyngor a mesurau perfformiad yr adran.

Nodwyd bod perfformiad wedi ei drafod mewn cyfarfod herio perfformiad ym mis Medi.

Atgoffwyd bod yr adran yn arwain ar chwe phrosiect o fewn meysydd blaenoriaeth amrywiol: cadw'r budd yn lleol, hybu defnydd y Gymraeg, cynllunio'r gweithlu, sicrhau tegwch i bawb, merched mewn arweinyddiaeth ac adolygiad strategol o reolaeth iechyd a diogelwch. Tynnwyd sylw at yr adolygiad strategol o reolaeth iechyd a diogelwch, gan nodi bod llithriad wedi bod mewn dwy garreg filltir o fewn y prosiect. Y cyntaf oedd cyflwyno system technoleg gwybodaeth newydd ar gyfer iechyd a diogelwch ar draws y Cyngor, a'r ail oedd datblygu cynllun archwiliadau pum mlynedd. Pwysleisiwyd bod y gwaith yn symud ymlaen ac y disgwylir cyflawni'r gwaith yn llawn.

Yn nhermau perfformiad dydd i ddydd, nodwyd bod y sefyllfa'n gadarnhaol ar y cyfan, ond bod nifer o faterion angen sylw pellach. Cyfeiriwyd at asesiadau iaith a gwblhawyd gan staff, lle mae'r ganran wedi bod yn uchel ond heb gyrraedd y targed llawn eto, gydag wyth aelod staff newydd heb gwblhau'r asesiad. Yn yr un modd, nodwyd bod 14 cais DBS yn aros i'w prosesu yn Lerpwl, a 44 arall yn disgwyl gweithrediad gan staff neu reolwyr, gyda'r ffigyrau'n newid yn ddyddiol wrth i staff newydd gyrraedd eu cyfnod adnewyddu. Eglurwyd bod y Grŵp Gweithredol Diogelu'n trafod perfformiad DBS bob chwarter, gydag is-grŵp yn craffu ar y data.

Nodwyd bod 52 cyfeiriad at Iechyd Galwedigaethol wedi'u gwneud ym mis Awst, gyda 48 aelod staff wedi mynychu apwyntiadau. O'r rheini, roedd 40 yn absennol o'r gwaith, ond yn sgil camau megis dychwelyd graddol neu addasiadau rhesymol, nodwyd bod 19 o unigolion bellach wedi dychwelyd i'r gwaith.

Yn nhermau ceisiadau diogelu data, derbyniwyd 18 cais yn ystod y chwarter gyda 13 ohonynt wedi'u hateb o fewn yr amserlen. Nodwyd bod cymhlethdod nifer o'r ceisiadau, yn enwedig yn y maes plant, wedi dylanwadu ar y perfformiad, ac y bydd angen adolygu'r adnoddau i ymdopi os bydd y niferoedd a'r cymhlethdod yn cynyddu.

Nodwyd bod cyfartaledd diwrnodau salwch fesul pen ar draws holl wasanaethau'r Cyngor, gan gynnwys ysgolion, yn sefyll ar 4.43 diwrnod, o'i gymharu â 4.23 y llynedd. Eglurwyd bod dadansoddiad manwl ar gyfer 2024-25 wedi'i gyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol, gyda chamau gweithredu i'w cymryd o hynny. Nodwyd bod yr amser cyfartalog i gwblhau arfarniadau ar swyddi wedi gostwng o 49.04 diwrnod ar gyfartaledd i 35.09 diwrnod erbyn diwedd Awst. Pwysleisiwyd bod y perfformiad hwn yn adlewyrchu gwaith y tîm, ond ei fod hefyd yn dibynnu ar nifer y ceisiadau sy'n dod i law a blaenoriaethau eraill o fewn yr adran.

Diolchwyd i holl swyddogion yr adran am eu hymrwymiad a'u cefnogaeth barhaus i waith y Cyngor.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Cwestiynwyd ynghylch y diffyg cyfeiriad yn yr adroddiad at gynnydd, neu'r diffyg cynnydd, o ran cynllun Ffordd Gwynedd. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd yr adran yn arwain ar y cynllun ond yn cyfrannu'n sylweddol at y cynllun gan arwain ar nifer o ffrydiau gwaith unigol. Eglurwyd bod adroddiad ar gynllun Ffordd Gwynedd eisoes wedi'i gyflwyno i'r Cabinet ym mis Gorffennaf.

Nodwyd nad oedd ffigwr absenoldeb salwch staff wedi newid llawer ers y llynedd. Cwestiynwyd a oedd unrhyw batrymau neu wahaniaethau rhwng adrannau ynghylch absenoldeb salwch staff. Mewn ymateb, eglurwyd:-

- Bod dadansoddiad manwl o'r sefyllfa wedi'i gyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, gan ddangos cynnydd rhwng 2023-24 a 2024-25.
- Bod polisi newydd ar absenoldeb salwch wedi'i gyflwyno, a bod bron i 400 o reolwyr wedi derbyn hyfforddiant arno.
- Bod system newydd i gofnodi absenoldebau wedi arwain at fonitro mwy effeithiol, ac o bosibl wedi cynyddu'r ffigyrau oherwydd gwell cofnodi.
- Bod straen a chyflyrau cyhyrsgerbydol yn parhau'n brif ffactorau, gyda phecynnau ymyrraeth ar gael a ffocws ar rôl y rheolwr wrth gefnogi lles staff.

Cwestiynwyd ynghylch straen, gan ofyn a oedd pwysau gwaith a thoriadau ariannol yn cyfrannu at y sefyllfa. Mewn ymateb, nodwyd bod straen yn cael ei gofnodi un ai fel un personol neu'n gysylltiedig â gwaith, ac y gall fod yn gyfuniad o'r ddau. Eglurwyd bod gwaith yn mynd rhagddo i annog rheolwyr i gynnal sgyrsiau rheolaidd am lesiant gyda staff, drwy hyfforddiant a chyrsiau newydd megis yr hyfforddiant i-act a'r system gwerthuso parhaus.

Holwyd a oedd yr adran yn pryderu ynghylch ffigyrau cwblhau DBS, a beth oedd y rhesymau pam nad oedd rhai aelodau staff wedi cwblhau neu adnewyddu eu DBS. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd y ffigyrau'n peri pryder i'r adran, gan ei bod yn ymwybodol o statws gwaith yr unigolion hyn, ac y caiff y ffigurau eu hadrodd yn rheolaidd i'r Panel Strategol Diogelu a'r Grŵp Gweithredol Diogelu. Nodwyd bod yr unigolion heb DBS naill ai'n weithwyr newydd, ar gyfnod salwch tymor hir neu ar gyfnod mamolaeth.

Cwestiynwyd ynghylch y prosiect Merched mewn Arweinyddiaeth, gan ofyn am effaith y gwaith a gwybodaeth am y prosiectau yn benodol i godi ymwybyddiaeth ymysg dynion wedi datblygu. Mewn ymateb, nodwyd bod yr ymateb gan ddynion wedi bod yn gymysg oherwydd brandio'r prosiect, ond bod sesiynau wedi'u cynnal o fewn Rhwydwaith Rheolwyr er mwyn sicrhau bod pob rheolwr, boed yn ddyn neu'n fenyw, yn derbyn yr un neges.

Cwestiynwyd i ba raddau y mae cynlluniau rhannu swyddi wedi'u hystyried i annog ac i hwyluso merched i symud ymlaen i swyddi uwch o fewn y Cyngor. Mewn ymateb, pwysleisiwyd bod nifer o enghreifftiau llwyddiannus o ferched wedi symud ymlaen i swyddi uwch, a bod rhagor o waith yn cael ei wneud i ehangu cyfleoedd drwy hyblygrwydd a chontractau addas. Cydnabuwyd bod lle i wella ymhellach.

Holwyd am fwy o wybodaeth ynghylch yr archwiliadau iechyd a diogelwch a fydd yn cael eu cynnal drwy'r Fforwm Corfforaethol a'r Fforymau Adran. Mewn ymateb, nodwyd bod y gwaith yn rhan o gynllun strategol ehangach. Nodwyd bod cynnal yr archwiliadau iechyd a diogelwch o fewn y Fforymau Adran yn rhoi cyfle i lais y staff gael ei glywed ynghylch pryderon iechyd, diogelwch a lles, a bod cynrychiolaeth drawsadrannol ar y panel sy'n cymeradwyo polisïau.

Cwestiynwyd ynghylch y ganran isel o 54% o reolwyr sydd wedi cwblhau hyfforddiant rheoli safle, gan ofyn am yr eglurhad dros hyn. Mewn ymateb, nodwyd nad yw pob rheolwr yn rheolwr safle. Eglurwyd bod y cwrs dan sylw yn gwrs adnewyddu, a bod y mwyafrif o reolwyr safle eisoes wedi cwblhau'r cwrs gwreiddiol. Pwysleisiwyd bod trefniadau iechyd a diogelwch sylfaenol ar waith ym mhob safle, gyda swyddogion iechyd a diogelwch yn cynnig cefnogaeth uniongyrchol i athrawon neu reolwyr newydd.

Cwestiynwyd y perfformiad o 72% o geisiadau diogelu data wedi'u cwblhau o fewn yr amserlen. Mewn ymateb, nodwyd:

- Bod cymhlethdod y ceisiadau yn effeithio ar berfformiad.
- Bod y ganran ar gyfer ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth wedi cynyddu i 95%.
- Bod gwaith yn parhau i wella trefniadau a hyfforddiant ar ymateb i geisiadau.
- Bod defnydd o dechnoleg yn gallu cynorthwyo, ond bod nifer y systemau o fewn y Cyngor yn golygu bod gwaith o'r fath yn cymryd amser sylweddol i'w gwblhau.

Gofynnwyd am fwy o wybodaeth ynghylch y prosiect i ddatblygu system gyflogaeth newydd i'r Cyngor. Mewn ymateb, nodwyd bod y prosiect ar hyn o bryd yn y cam caffael, gyda'r broses dendro ar y gweill a bwriad i asesu o fewn y mis nesaf, gyda'r nod o roi'r system ar waith erbyn dechrau mis Rhagfyr 2026.

<u>Gwasanaethau Cyfreithiol</u>

Cyflwynwyd adroddiad Gwasanaethau Cyfreithiol gan yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol, Cyfreithiol a'r Gymraeg, gan nodi bod y gwasanaeth yn cynnwys pedwar tîm, sef cyfreithiol, priodoldeb, etholiadau a chefnogaeth i'r crwner. Nodwyd bod 91% o'r ymatebion i'r arolwg boddhad gan gwsmeriaid wedi nodi "fodlon iawn", gyda 9% yn "fodlon", a bod nifer yr ymatebion wedi cynyddu'n sylweddol. Nodwyd bod y gwasanaeth bellach wedi symud ymlaen o'r heriau recriwtio blaenorol ac wedi elwa ar gynlluniau Gwynedd Yfory a phrentisiaethau.

Nodwyd bod yr adran bellach wedi ymgorffori system rheoli achosion newydd ac wedi edrych ar y posibilrwydd o fabwysiadu nodweddion o'r cymhwyster Lexcel a fyddai o fudd i'r adran. Nodwyd bod yr adran yn parhau i gefnogi a chynghori ar swyddogaethau'r Cyngor o safbwynt sicrhau priodoldeb cyfansoddiadol, cyfreithiol a gweinyddol. Ymhelaethwyd fod y gwaith hwn yn barhaus, ond yn benodol bwriedir cynnal cyfres o seminarau "Penderfyniadau

Da” o fis Hydref ymlaen. Pwysleisiwyd y bydd yr adran yn gweithio gyda’r Pwyllgor Safonau, Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol ac Aelodau, ynghyd â swyddogion perthnasol, i gynnal a chefnogi safonau uchel o ymddygiad ymhlith cynghorwyr. Atgoffwyd Cynghorwyr i sicrhau eu bod wedi cwblhau’r hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.

Pwysleisiwyd mai’r brif her ar hyn o bryd yw’r gwaith rhanbarthol a darparu cymorth cyfreithiol i Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC). Nodwyd bod y cyfnod presennol yn heriol gan fod nifer o elfennau o waith y CBC yn dod yn weithredol yn ystod y chwarter cyfredol. Cyfeiriwyd hefyd at drefniadau’r etholiadau seneddol newydd ar gyfer 2026, gan nodi’r newidiadau i’r system bleidleisio a’r etholaeth newydd “Gwynedd Maldwyn”.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:-

Cwestiynwyd lle mae’r adran arni ynghylch hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad i gynghorau tref a chymuned. Mewn ymateb, nodwyd bod dwy neu dair sesiwn wedi’u cynnal ar gyfer clercod a chadeiryddion ar ddechrau’r flwyddyn, ond bod blaenoriaethau staffio wedi arwain at oedi dros dro yn y ddarpariaeth. Pwysleisiwyd bod hyfforddiant ar-lein ar gael.

Cwestiynwyd a oedd yr adran yn hyderus y gellir ymdopi â’r holl newidiadau sy’n ymwneud â’r etholiadau sydd ar y gorwel. Cwestiynwyd ymhellach a oes gan yr adran y capasiti i gyflawni’r gofynion. Mewn ymateb, nodwyd bod her ddaearyddol amlwg, ond bod gwaith cynllunio eisoes wedi dechrau ar y cyd â chynghorau Powys, Wrecsam, Dinbych a Chonwy, gyda threfniadau cydweithio clir ar waith rhwng yr awdurdodau er mwyn sicrhau trefn effeithiol.

Cwestiynwyd ynghylch profiad yr adran gyda’r peilot cofrestru awtomatig gan Lywodraeth Cymru. Mewn ymateb, eglurwyd bod y Cyngor wedi cyfrannu at y cynllun peilot, ac y disgwylir derbyn adroddiad gan Lywodraeth Cymru ar y system er mwyn llywio’r camau nesaf.

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi’r sylwadau.**
2. **Croesawu’r camau a gymerwyd i fynd i’r afael â straen, hybu rôl merched mewn arweinyddiaeth, a sicrhau bod llais i’r gweithwyr o fewn trefniadau iechyd a diogelwch yn y Fforymau Adrannol.**

## 9. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI 2025/26

Nodwyd y rhoddwyd cyfle i holl aelodau’r Cyngor, aelodau cyfetholedig, Aelodau Cabinet, Penaethiaid Adran a’r cyhoedd i awgrymu eitemau posib i’w craffu yn ystod 2025/26.Yng nghyfarfod anffurfiol y Pwyllgor ar 17 Gorffennaf 2025, ystyriwyd yr eitemau posib i’w craffu yn ystod 2025/26.

Eglurwyd y darparwyd gwybodaeth am yr eitemau posib ymlaen llaw i aelodau’r pwyllgor. Gwnaed ymgais i flaenoriaethu uchafswm o dair eitem fesul cyfarfod

er mwyn sicrhau bod sylw teilwng yn cael ei roi i faterion a bod craffu yn gallu ychwanegu gwerth. Nodwyd ni lwyddwyd i wneud hyn eleni gyda phedair eitem wedi ei raglennu ar gyfer bob cyfarfod. Nodwyd bod yr aelodau o'r farn bod yr eitemau a flaenoriaethwyd angen eu craffu yn ystod y flwyddyn. Tanlinellwyd y disgwyliad i bob aelod sicrhau eu presenoldeb ar gyfer sesiwn y bore a'r prynhawn.

Nodwyd yr adnabuwyd 'Presenoldeb ac ymddygiad disgyblion yn ysgolion Gwynedd' a 'Gwasanaeth Gwella Ysgolion' fel eitemau i'w rhaglennu yn 2026/27. Nodwyd bod gwaith yr Ymchwiliad Craffu Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion yn parhau. Eglurwyd bwriadwyd cyflwyno adroddiad drafft terfynol yr ymchwiliad i gyfarfod y Pwyllgor ar 11 Rhagfyr 2025.

Nodwyd er mwyn sicrhau bod llais disgyblion yn cael sylw haeddiannol fel rhan o'r ymchwiliad fel y pwysleisiwyd gan aelodau'r ymchwiliad ynghyd â'r Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb i Droseddu, ei fod yn anorfod bydd yr amserlen o gyflwyno adroddiad terfynol drafft i'r Pwyllgor yn gorfod llithro. Eglurwyd o ganlyniad cysylltwyd gyda'r adrannau perthnasol o ran y posibilrwydd o ail-raglennu eitem o gyfarfod mis Chwefror i gyfarfod mis Rhagfyr. Derbyniwyd cadarnhad gan yr Adran Addysg bod modd symud yr eitem 'Strategaeth Addysg' i gyfarfod 11 Rhagfyr 2025.

Atgoffwyd yr aelodau bod gweithrediad y Siarter Iaith yn fater a godwyd yn ystod y drafodaeth o dan yr eitem 'Cyfundrefn Addysg Drochi' fel maes posib i'w graffu.

**PENDERFYNWYD**

1. **Mabwysiadu'r rhaglen waith ar gyfer 2025/26.**
2. **Ystyried blaenoriaethu craffu gweithrediad y Siarter Iaith pan yn amserol.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 yb a daeth i ben am 3:10 yp

____________________________

Cadeirydd